## Cwestiynau a ofynnwyd yn ystod y broses ymgynghori

## Dull rhanbarthol

**1. A fydd marchnadoedd yn yr Ardaloedd TB Uchel yn gallu gwerthu gwartheg o ardaloedd isel a chanolradd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd?**

Byddant. Ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar ble mae marchnadoedd yn cael eu gwartheg. Ni fydd yr ardal TB y mae'r farchnad ynddi yn effeithio ar y mesurau rheoli gan fod rhaid iddynt gydymffurfio â safonau bioddiogelwch, o dan Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid, sy'n lleihau'r risg o ledaenu'r clefyd yn lleol.

**2. Sut mae ceidwaid yn ymdopi pan mae ganddynt dir mewn gwahanol ardaloedd TB, yn enwedig wrth symud gwartheg rhyngddynt?**

Yr egwyddor gyffredinol yw y bydd yr holl dir o fewn 10 milltir yn rhannu'r un Rhif Daliad (gan gymryd bod y ffermwr wedi penderfynu cael y tir o dan un Rhif Daliad) ac y bydd yr holl Rif Daliad hwnnw yn yr un ardal TB (hyd yn oed pan mae hyn yn croesi ffiniau ardal ar hyn o bryd). Bydd unrhyw dir y tu allan i'r ddeg milltir o dan Rif Daliad gwahanol a bydd y mesurau rheoli perthnasol ar gyfer symudiadau rhwng y rhifau daliad hynny'n berthnasol, yn cynnwys os ydynt yn ardaloedd dibwys.

**3. Ai Llywodraeth Cymru fydd yn talu am y prawf 6 mis ychwanegol?**

I'w benderfynu.

**4. Bydd angen i wartheg sy'n symud o ardal uchel i ardal ganolradd neu isel gael prawf ar ôl symud. A yw hyn yn golygu nad oes angen prawf cyn symud mewn ardal uchel, neu fod angen y ddau, a phryd?**

Mae angen y ddau. Bydd y prawf cyn symud yn helpu i atal y clefyd rhag lledaenu a'r prawf ar ôl symud yn helpu i nodi anifeiliaid heintiedig cyn gynted â phosibl cyn bod yr haint wedi heintio eraill. Mae'n rhaid cynnal y prawf ar ôl symud 60 diwrnod i 120 diwrnod ar ôl i'r anifeiliaid gyrraedd y daliad.

**5. Yn yr ardal uchel, pa mor hir ar ôl y prawf clirio y gellir cynnal y prawf cyn symud er mwyn caniatáu symudiadau? Mae hyn yn ymddangos yn anghyson, ni all fod yn brawf clirio sy'n codi cyfyngiadau ar fuches os oes angen prawf cyn symud wedyn.**

60 diwrnod o ddyddiad y chwistrellu (diwrnod un y prawf). Byddai'r fuches yn cael ei dosbarthu fel buches heb TB ac felly'n rhydd o gyfyngiadau, er enghraifft byddai'n gallu prynu anifeiliaid.

**6. Mae'r ymgynghoriad yn nodi '*bydd gwartheg a symudwyd i'r ardal o ardal debyg neu uwch, ond sydd ar wahân yn ddaearyddol, yn gorfod cael Prawf Cyn Symud*'. Allwch chi ddiffinio 'sydd ar wahân yn**

**ddaearyddol'?**

Dim ond ar gyfer symudiadau o ardal clefyd uwch y mae angen prawf ar ôl symud (gweler y tabl isod):

| **Symud i** | **Symud o** | **Prawf cyn symud?** | **Prawf ar ôl symud?** |
|---|---|---|---|
| Isel (Cymru) | Isel (Cymru) | Nac oes | Nac oes |
| Isel (Cymru) | Canolradd (Cymru) | Oes | Oes |
| Isel (Cymru) | Uchel (Cymru) | Oes | Oes |
| Isel (Cymru) | Isel (Lloegr) | Nac oes | Nac oes |
| Isel (Cymru) | Ymyl (Lloegr) | Oes | Oes |
| Isel (Cymru) | Uchel (Lloegr0 | Oes | Oes |
| Isel (Cymru) | Yr Alban | Nac oes | Nac oes |
| Canolradd (Cymru) | Isel (Cymru) | Nac oes | Nac oes |
| Canolradd (Cymru) | Canolradd (Cymru) | Oes | Nac oes |
| Canolradd (Cymru) | Uchel (Cymru) | Oes | Oes |
| Canolradd (Cymru) | Isel (Lloegr) | Nac oes | Nac oes |
| Canolradd (Cymru) | Ymyl (Lloegr) | Oes | Nac oes |
| Canolradd (Cymru) | Uchel (Lloegr) | Oes | Oes |
| Canolradd (Cymru) | Yr Alban | Nac oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Isel (Cymru) | Nac oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Canolradd (Cymru) | Oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Uchel (Cymru) | Oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Isel (Lloegr) | Nac oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Ymyl (Lloegr) | Oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Uchel (Lloegr) | Oes | Nac oes |
| Uchel (Cymru) | Yr Alban | Nac oes | Nac oes |

Nodwch y bydd angen prawf ar ôl symud yn yr ardal TB isel o fis Awst 2017 tra bydd angen prawf ar ôl symud yn yr ardaloedd TB canolradd o fis Awst 2018.

**7. Pa asesiad sydd wedi'i gynnal i amcangyfrif nifer y profion ychwanegol os bydd rhaid profi buchesi bob 6 mis? A fydd milfeddygon yn gallu ymdopi â'r profion ychwanegol?**

Bydd hyn yn cael ei asesu ar ôl ystyried yr ymatebion i'r mater hwn yn yr ymgynghoriad.

**8. All gwartheg o ardal TB isel symud i ardaloedd canolradd ac uwch heb gael prawf cyn symud?**

Gallant, gellir symud gwartheg o’r ardal TB isel i ardal TB canolradd neu uwch heb brawf cyn symud.

**9. A fydd marchnadoedd yn cael eu trin fel rhai “niwtral” o ran y rheolau profi ar ôl symud?**

Byddant, mae’r rheolau prawf ar ôl symud yn berthnasol i leoliad y fuches mae’r anifail yn symud ohono ac iddo, yn cynnwys os yw hyn yn digwydd drwy farchnad.

**10. A oes ffiniau daearyddol neu fioddiogelwch ar waith rhwng yr ardal uchel ac isel yn y Gogledd?**

Dechrau Parc Cenedlaethol Eryri yw’r ffin. Wrth gymharu’r unedau gofodol (gweler cwestiwn 14) ar boptu’r ffin, mae dwyster y fuches dros 50% yn is yn yr ardal isel ac mae cyfran is o fuchesi godro.

**11. Sut bydd ffermydd ar y ffin yn cael eu trin?**

Fel sy’n digwydd ar hyn o bryd, bydd rhif y daliad naill ai yng Nghymru neu Loegr a bydd y rheolau priodol yn berthnasol.

**12. Rydych yn dweud y byddwch chi’n cynnal profion gama interfferon ar achosion ar sail ad hoc yn yr ardal TB uchel. Sut byddwch chi’n penderfynu rhwng ffermydd ac yn egluro hyn i ffermwyr?**

Bydd pob ceidwad gwartheg sy’n dioddef achos o TB yn cael ymweliad gan filfeddyg yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn fuan ar ôl canfod yr achos. Gydol y cyfnod pan fydd y fuches wedi’i chyfyngu bydd y milfeddyg yn gweithio’n agos gyda pherchennog y fuches i roi mesurau priodol ar waith i fynd i’r afael â risg y clefyd. Bydd pob perchennog yn cael cyfle i gael ymweliad Cymorth TB cynghorol gan ei filfeddyg preifat ei hun. Bydd y defnydd o brofion gama interfferon yn adlewyrchu amgylchiadau unigol pob achos ac yn cael eu hegluro i’r perchennog gan y milfeddyg.

**13. Mae’r ffin rhwng de’r ardal TB isel a’r ardal canolradd yn ymddangos yn gwbl fympwyol. Bydd ffermwyr yn ddryslyd ynghylch y gofynion. A oes cymaint mwy o achosion o TB yn ne Powys fel na ellir tynnu llinell y ffin ar hyd ffin y sir â Cheredigion?**

Mae’r ardaloedd yn gyfuniad o unedau gofodol, sy’n cynnwys plwyfi, a grëwyd gan ddefnyddio dull tebyg ar gyfer creu unedau ystadegol ar gyfer cyfrifiadau’r DU. Mae’r unedau gofodol yn cyd-fynd â system rhif y daliad ac yn cynnwys nifer tebyg o fuchesi. Nid yw newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol yn effeithio

ar y dull hwn ac mae'n hyblyg i newid i gyd-fynd â sefyllfa'r clefyd.

**14. Yn hytrach na chael ffiniau lefel risg mympwyol a fyddai'n bosibl defnyddio'r ymweliad Cymorth/fframwaith bioddiogelwch i ddynodi lefel risg i bob fferm sy'n debyg i lefelau risg Clefyd Johne a fyddai wedyn yn penderfynu gofynion prawf cyn symud ymlaen llaw?**

Cafodd cynllun iechyd TB'r Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg ei lansio ym mis Tachwedd. Mae'r cynllun iechyd TB a gydnabyddir gan y diwydiant yn dangos statws TB y buchesi sy'n cymryd rhan ar sail mesurau bioddiogelwch ychwanegol a nifer y blynyddoedd ers yr achos diwethaf o TB yn y fuches. Mae'r cynllun yn ategu ein dull rhanbarthol arfaethedig drwy ganolbwyntio ar risg ar lefel y fuches.

**15. Sut bydd y ffiniau'n cael eu diffinio? Beth yw goblygiadau cael busnesau sy'n croesi'r ffiniau?**

Gweler cwestiwn 2.

**16. Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni statws 'heb TB' ar gyfer pob rhanbarth?**

Nid yw'r amserlenni ar gyfer dileu ym mhob ardal TB wedi'u pennu eto, ond mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu targedau ar gyfer dileu.

**17. Mewn byd ôl-Brexit, a yw'r dull rhanbarthol yn cael unrhyw effaith (cadarnhaol neu niweidiol) ar allu'r DU i gymryd rhan mewn trafodaethau masnach ar gyfer cynnyrch amaethyddol?**

Ni chredir y bydd mabwysiadu dull rhanbarthol o ddileu TB yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar allu'r DU i gymryd rhan mewn trafodaethau masnach.

**18. Beth yw'r gwahaniaeth yng nghostau'r mesurau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r mesurau rheoli angenrheidiol yn yr ardal TB isel o gymharu â'r rhai sydd eu hangen yn yr ardal TB uchel? Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar effeithlonrwydd busnesau yn y rhanbarthau hyn?**

Bydd effaith ariannol y newidiadau'n cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2017.

**19. Pa ddadansoddiad sydd wedi'i wneud i ddeall effaith prisiau yn y man gwerthu yn seiliedig ar statws TB rhanbarthol? Rydym wedi clywed adborth gan gydweithwyr yn Lloegr mewn ymateb i gyflwyno rhanbarthau 'glân' a 'budr', sy'n dweud bod hyn wedi arwain at brisiau is yn y farchnad.**

Nid ydym yn cynnig nodi o ba ardal y symudwyd yr anifail ohoni yn y man gwerthu. Yn hytrach, rydym yn annog gwerthwyr i rannu gwybodaeth TB eu buches.

**20. Ydy'r dull rhanbarthol yn agored i her gyfreithiol? A yw'r ffordd wahanol o drin ffermwyr mewn gwahanol ardaloedd yn 'deg' a 'chyfiawn' yn gyfreithiol?**

Mae'r dull yn adlewyrchu'r amrywiadau rhanbarthol yn epidemioleg y clefyd ac yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn gwledydd eraill ac ar gyfer clefydau eraill i ddiogelu'r poblogaethau sydd mewn risg o'r poblogaethau sy'n achosi mwy o risg.

**21. Sut a phryd y gallai'r parthau daearyddol gael eu newid a faint o rybudd a roddir?**

Bydd sefyllfa'r clefyd mewn ardaloedd, a'r unedau gofodol sy'n rhan ohonynt, yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

**22. Beth yw pwynt gweithredu rheoliadau mor llym ar ffermydd Cymru sydd ar y ffin, os nad yw'r ffermydd cymdogol yn Lloegr yn gorfod cydymffurfio â mesurau tebyg?**

Rydym yn gweithio'n agos â Defra ar ddatblygu mesurau rheoli TB cyffredin a chymesur mewn gwartheg a fydd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y ddwy wlad yn gallu cyflawni ein nod o ddileu TB. Er enghraifft, mae Defra newydd ofyn am sylwadau ar gynigion ar gyfer profion goruchwyliaeth bob chwe mis yn ei ardal risg uchel, sy'n gyson â'n cynigion ni.

**23. Sut bydd yn effeithio ar fasnach â Lloegr?**

Mae Ysgrifennydd Gwladol Defra wedi cytuno i ddileu'r gofyniad ar gyfer cynnal prawf ar ôl symud ar anifeiliaid sy'n symud o'n hardal TB isel i ardal risg isel yn Lloegr.

**24. Sut bydd y dosbarthiadau ar gyfer yr ardaloedd hyn yn cael eu hadolygu a pha mor aml? Beth all perchennog buches unigol wneud am hyn?**

Gweler cwestiwn 21. Gall ffermwyr gyfrannu drwy wneud popeth o fewn eu gallu i ddiogelu eu buches rhag TB o'r ffynonellau posibl sy'n berthnasol yn eu hardal ac annog eraill i wneud yr un peth.

**25. Ai dim ond y plwyfi ar ffiniau'r ardaloedd hyn fydd yn cael eu hystyried yn risg is os yw lefel yr achosion yn lleihau?**

Bydd sefyllfa'r clefyd yn cael ei hadolygu ar lefel yr uned ofodol.

**26. Beth yw'r siawns o fuches yn Sir Benfro neu orllewin Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, yn ystyried ei hun yn risg canolradd neu isel, er nad yw wedi cael adweithydd o gwbl?**

Bydd cynllun iechyd TB y Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (gweler cwestiwn 14) o fudd arbennig i ffermwyr yn yr ardaloedd TB uchel nad ydynt wedi cael y clefyd yn ddiweddar neu erioed efallai ac a fyddai'n hoffi cydnabyddiaeth i'w statws risg isel.

**27. Sut bydd marchnadoedd yn gweithio? A fydd marchnadoedd yn yr ardal isel yn gallu cymryd stoc o ardal risg uwch?**

Gweler cwestiwn 9.

**28. Sut bydd y cynigion newydd yn cael eu cyflwyno ledled y wlad a'u gweithredu?**

Bydd hyn yn cael ei amlinellu maes o law fel rhan o'r Rhaglen o'r newydd ar gyfer dileu TB.

**29. Mae angen egluro pennawd y Tabl Canolradd 'Ei gadw allan' 'Bydd rhai o eithriadau'r Profion Cyn Symud yn cael eu dileu fel bod pob anifail sy'n symud i'r ardal yn cael Prawf Cyn Symud? A ddylai hwn fod o ardaloedd uwch neu debyg ond sydd yn ddaearyddol ar wahân?**

Gweler tabl cwestiwn 6.

**30. A oes dyletswydd ar y gwerthwr neu'r arwerthwr i ddatgan hanes anifail pan fydd yn cael ei werthu o ardaloedd risg gwahanol>?**

Drwy brynu gwybodus rydym yn annog gwerthwyr i ddarparu gwybodaeth am TB yn y man gwerthu ac mae rhai marchnadoedd da byw wedi uwchraddio eu cyfleusterau er mwyn gallu arddangos gwybodaeth am TB yn amlwg.

## Prawf TB a chyfyngiadau

**31. Ydy'r prawf cyn symud yn dal yn ddilys am 60 diwrnod?**

Mae'n rhaid symud anifeiliaid o fewn 60 diwrnod i brawf cyn symud clir.

**32. Ydy hi'n bosibl y gallai prawf cyn symud yn yr ardal TB isel fod yn ddilys am fwy na 60 diwrnod?**

Does dim rhaid cynnal prawf cyn symud yn yr ardal TB isel.

**33. I ba raddau mae'r prawf croen yn gadarn ac wedi profi i fod yn gwbl lwyddiannus? A oes rhywun yn gweithio ar system brofi TB fwy cywir?**

Defnyddir y prawf croen fel y prif brawf sgrinio. Mae'n dangos ymateb imiwnaidd i TB ac yn gallu nodi haint cyn i fuwch ddangos unrhyw arwyddion o salwch. Ar ôl nodi haint mewn buches defnyddir dehongliad llymach o'r canlyniad prawf nesaf. Mae hwn yn cynyddu gallu'r prawf i nodi unrhyw wartheg eraill sydd wedi'u heintio. Mae'n rhaid i fwyafrif o'r buchesi heintiedig

gael o leiaf dau brawf clir cyn y bydd cyfyngiadau ar symud yn cael eu codi. Mae hyn yn lleihau'r risg o anifeiliaid heintiedig yn parhau i fod heb eu canfod yn y fuches. Er bod y prawf gama yn ddull pwysig, mae profi croen ynddo'i hun wedi dangos ei fod yn gallu dileu'r clefyd yn y mwyafrif o fuchesi. Mae'r prawf croen wedi bod yn effeithiol i glirio haint o rannau o'r DU lle nad yw haint TB mewn bywyd gwyllt yn broblem fawr ac wedi cael ei ddefnyddio yn yr Alban i sicrhau statws heb TB.

**34. Ydy pob buwch sy'n adweithio i'r prawf croen wedi'i heintio â TB?**

Mae'r prawf croen yn benodol iawn, sy'n golygu mai ychydig o anifeiliaid heb eu heintio sy'n profi'n positif. Er enghraifft, gyda dehongliad safonol mae ganddo benodoldeb o 99.98%, sy'n gyfwerth ag 1 canlyniad positif anghywir mewn 5,000 o anifeiliaid heb eu heintio a brofwyd.

**35. Yn ystod y prawf croen a ddylai pob anifail gael ei chwistrellu gyda'r un chwistrell?**

Cynhelir profion TB trwy ddefnyddio pâr o chwistrellau, un ohonynt yn chwistrellu twbercwlin adar a'r llall yn chwistrellu twbercwlin buchol. Mae'n rhaid defnyddio nodwydd ddi-haint i chwistrellu pob twbercwlin. Mae'n rhaid i brofwr ddilyn protocol safonol ar gyfer dadhalogi nodwyddau er mwyn bodloni'r gofyniad hwn.

**36. Pam nad yw'r cyfyngiadau'n cael eu codi pan fo anifail yn adweithio i'r prawf croen ond nad yw'r post mortem yn dod o hyd i unrhyw friwiau?**

Camganfyddiad cyffredin gyda'r prawf croen yw ei fod yn nodi anifeiliaid yn anghywir fel rhai sydd wedi'u heintio gan nad oes briwiau'n cael eu canfod yn yr archwiliad post mortem yn aml. Mae'r ddau brawf yn dangos ymateb imiwnaidd i TB sy'n golygu y gallant nodi haint cyn i fuwch ddangos unrhyw arwyddion o salwch ac felly mae disgwyl iddynt allu gweld yr haint mewn anifeiliaid cyn iddo ddatblygu i'r cam lle mae briwiau'n amlwg. Mae'r prawf croen yn benodol iawn (99.98%) sy'n golygu mai ychydig iawn o anifeiliaid sy'n cael eu profi'n bositif yn anghywir a dyma'r rheswm pam mae'r prawf hwn yn unig sy'n cael ei ddefnyddio i godi cyfyngiadau.

**37. Pam na ellir cynnal y prawf cyn symud ar sail dehongli difrifol?**

Dim ond dehongliad safonol o brawf croen a ddefnyddir i gyfyngu ar fuches.

**38. Dydy hi ddim yn glir a fydd yr eithriad prawf cyn symud yn dal i fodoli ar gyfer lloi o dan 42 diwrnod?**

Pan fo prawf cyn symud yn dal i fod yn ofyniad bydd lloi o dan 42 diwrnod yn dal i fod wedi'u heithrio.

**39. Rydych yn dweud fod gwartheg wedi'u heintio heb eu darganfod yn dod â'r clefyd i mewn, sut ydych chi'n gwybod hyn?**

Drwy epidemioleg folecwlaidd – dadansoddiad o geneoteipio a chofnodion symud, ac adolygiadau achos unigol o wartheg wedi'u heintio gan ddefnyddio gwybodaeth epidemiolegol lleol.

**40. Pam rydych chi am brofi cyn symud yn ogystal ag ar ôl symud, does bosib fod y prawf yn fwy cywir na'r hyn rydych chi'n ei awgrymu?**

Dydy hi ddim yn bosibl llwyr ddileu'r risg o TB yn lledaenu drwy symudiadau gwartheg er gwaethaf y mesurau rheoli sydd ar waith (yn cynnwys y prawf cyn symud). Dyma rai o'r rhesymau am hyn:

- mae sensitifrwydd y prawf croen tua 80%, sy'n golygu mai dim ond 80 o 100 anifeiliaid wedi'u heintio sy'n debygol o brofi'n positif yn y dehongliad safonol o'r prawf
- gall gwartheg gael eu heintio ar ôl cael eu profi a chyn iddynt symud
- gall yr haint fod yn ei gyfnod cynnar wrth brofi'r gwartheg ac ni fydd y prawf yn amlygu'r haint
- profion o ansawdd gwael
- os yw anifail wedi'i heintio â chlefyd arall gall yr haint hwnnw amharu ar y prawf
- TB wedi lledaenu'n eang yn yr anifail, sy'n arwain at ymateb imiwnedd gwahanol a'r canlyniad yw nad yw'n nodi'n bositif yn y prawf.

Bydd y prawf ar ôl symud yn gyfle i nodi anifeiliaid heintiedig a allai fod wedi'u symud heb yn wybod bod yr haint arnynt, cyn gynted â phosibl cyn i'r clefyd heintio eraill.

**41. Faint fydd cynyddu'r sensitifrwydd drwy newid y polisi hwn yn effeithio'n anochel ar benodoldeb y prawf? Byddai'n ei leihau does bosib ac felly ni fyddem yn gallu dweud bod y prawf croen yn 99.9%.**

Rydym yn cynyddu sensitifrwydd y prawf mewn buchesi wedi'u heintio gan fod yr angen i nodi a chael gwared ar yr holl wartheg wedi'u heintio yn fwy na'r risg o gael gwared ar nifer isel o rai sy'n profi'n bositif yn anghywir. 99.91% yw penodoldeb y prawf wrth ei ddehongli'n ddifrifol.

**42. Os yw prawf cyn symud yn dod o hyd i adweithydd, sut byddwch yn mynd ati i olrhain y clefyd?**

Os yw prawf cyn symud yn canfod adweithydd a bod y fuches dardd wedi cael prawf clir yn ddiweddar, yna ni fyddai angen rhagor o brofion fel arfer. Pe na bai prawf diweddar wedi'i gynnal ar y fuches darddu byddai angen cynnal prawf archwilio.

**43. Pa mor aml ydych chi wedi cael problemau TB pellach yn y gwartheg a werthwyd ar ôl y prawf clirio?**

Y gyfran gyfredol o achosion wedi'u cau sy'n digwydd eto yng Nghymru o fewn dwy flynedd yw 27.5%. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ar draws y rhanbarthau:

- Isel: 0%
- Canolradd (canolbarth): 14%
- Canolradd (gogledd): 25%
- Uchel (gorllewin): 29%
- Uchel (dwyrain): 34%

Yn yr ardaloedd isel a chanolradd, mae yna orgyffwrdd rhwng ffactorau sy'n ysgogi'r clefyd h.y. symudiadau gwartheg. Rydym wedi dangos hyn drwy epidemioleg folecwlaidd - dadansoddiad o geneoteipio a chofnodion symud, ac adolygiad achosion unigol o wartheg wedi'u heintio gan ddefnyddio gwybodaeth epidemiolegol leol. Mae hyn yn cyfateb i ganfyddiadau'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB Gwartheg a ganfu bod nifer y gwartheg wedi'u heintio sydd heb eu diagnosio yn parhau i fod yr un fath ar ôl prawf twbercwlin, gan arwain at ail-heintio mewn buchesi a lledaenu'r clefyd i fuchesi cyfagos ac allan i weddill y wlad.

**44. Weithiau mae milfeddygon yn mynd i ffermydd i gynnal profion olrhain ac yn gweld bod yr anifail wedi cael 1 prawf TB neu fwy ar y fferm newydd. Ydych chi'n gwirio hanes profi TB buchesi cyn rhoi cyfarwyddiadau olrhain?**

Ydyn. Yn ystod yr ymchwiliad olrhain bydd y tîm yn edrych ar hanes profi pob anifail. Mae hyn yn helpu i weld a yw anifail angen prawf yn syth neu brawf 120 diwrnod. Bydd y tîm hefyd yn gweld a oes angen profi'r fuches i gyd a chynnal y prawf olrhain gyda'r prawf ar y fuches (pan fo amser yn caniatáu). Os oes gan y daliad anifeiliaid olrhain o achosion TB eraill, y mae dyddiadau 120 diwrnod o fewn mis i'w gilydd, bydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu cyfuno mewn un prawf olrhain (pan fo'r dyddiadau'n caniatáu hynny).

**45. Mae angen esboniad syml am anghysonderau profion croen positif ac absenoldeb briwiau wrth ladd?**

Gweler cwestiwn 36.

**46. Esboniadau llawn a chyngor nad yw hi'n bosibl bod yn sicr bod buchesi yn rhydd o'r clefyd hyd yn oed pan fyddant wedi'u dosbarthu fel rhai OTF, ac yn bwysicach, y rhesymau am hyn.**

Er gwaethaf profi fwy nag unwaith mae sensitifrwydd profion yn parhau i fod yn broblem mewn rhai buchesi oherwydd eu maint a/neu eu bod wedi'u rhannu dros sawl lleoliad. Gall gwartheg wedi'u heintio barhau i fod heb eu canfod yn y buchesi hyn hyd yn oed ar ôl i gyfyngiadau gael eu codi.

**47. Prawf clirio ddim yn cael ei ddefnyddio fel prawf cyn symud. Ble mae'r dystiolaeth i ddangos bod y ffermydd hyn wedi gwerthu stoc wedi'i heintio?**

Gweler cwestiwn 43.

**48. Os na fydd hi'n bosibl gwerthu anifeiliaid ar ôl y prawf clirio ac na fydd hi'n bosibl eu profi am 60 diwrnod mae hyn yn ymestyn eu cyfyngiadau am 60 diwrnod arall. Rwy'n cymryd, ac eithrio lloi o dan 42 diwrnod oed na chafodd eu profi/nad oedd yn fyw adeg y prawf clirio?**

Gweler cwestiwn 5.

**49. A fydd buchesi statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW) sy'n datgelu Adweithyddion Amhendant yn dal i orfod cael 2 brawf clir?**

Byddant. Mae pob buches OTFW yng Nghymru nawr angen 2 brawf cyfnod byr clir er mwyn cael eu rhyddhau o gyfyngiadau TB.

**50. Ydy Adweithyddion Amhendant yn ganlyniad i ddefnydd anghywir o'r nodwydd/yr un nodwydd yn cael ei defnyddio ar gyfer pob anifail?**

Mae'n debyg y bydd mwyafrif llethol yr Adweithyddion Amhendant yn rhai gwirioneddol sy'n deillio o ddefnyddio'r prawf yn gywir. Mae'n annhebygol iawn y gallai adwaith i twbercwlin adar neu fuchol fod wedi deillio o haint a gyflwynwyd gyda'r chwistrelliad twbercwlin. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall dos annigonol o dwbercwlin, chwistrellu twbercwlin tan y croen, neu fesur trwch y croen yn annigonol arwain at gynhyrchu Adweithyddion Amhendant, yn hytrach nag anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB. Dyma pam ei bod i'n bwysig bod y prawf croen yn cael ei gynnal mewn cyfleusterau profi da er mwyn gallu ffrwyno'r anifail yn ddigonol a dilyn protocolau profi safonol heb ruthro.

**51. A fydd y profion bob chwe mis yn cael eu cynnal gan filfeddygon preifat neu filfeddygon y llywodraeth? Fyddan nhw'n gallu ymdopi gyda'r llwyth gwaith ychwanegol? Ni ddylid cosbi ffermwyr am brofion hwyr sydd y tu allan i'w rheolaeth.**

I'w benderfynu. Mae'r ymgynghoriad ond yn trafod y cysyniad o brofion bob 6 mis yn yr ardaloedd TB uchel a'r buchesi risg uchel yn yr ardaloedd TB canolradd ac isel.

**52. A yw Llywodraeth Cymru'n cofnodi TB buchol heb ei ddarganfod pan fo gwartheg eidion yn cael eu lladd?**

Mae achosion lladd-dai yn cael eu cofnodi yn yr ystadegau TB.

**53. Sut bydd y ffermwr yn gwybod pryd mae angen prawf ar ôl symud?**

Bydd gofyn i ffermwyr wirio lleoliad gwreiddiol yr anifail.

## Bywyd gwyllt

**54. Sut bydd moch daear yn cael eu monitro i asesu eu perthnasedd i achosion o TB?**

Gallwn ddangos bod moch daear wedi'u heintio ac yn rhannu'r un math o M.bovis â gwartheg ac felly mae'n debygol bod y clefyd yn cael ei drosglwyddo rhwng rhywogaethau. Rydym wrthi'n gweithio gyda milfeddygon / ecolegwyr moch daear a grwpiau bywyd gwyllt i ddatblygu cyfres o feini prawf y byddai angen eu bodloni i ddangos bod moch daear yn cyfrannu at achosion hirdymor o TB mewn buchesi.

**55. Sut ydych chi'n mynd i brofi bod moch daear yn ffactor ac yn cyfrannu at y broblem?**

Byddwn yn defnyddio'r meini prawf y cyfeirir atynt yng Nghwestiwn 58.

**56. Ydych chi'n cynnig difa moch daear? Os felly, ydych chi'n cynnig defnyddio brechu cylchol os yw'r brechlyn BCG ar gael eto?**

Nid ydym am ddefnyddio dull difa tebyg i Loegr, bydd nifer cyfyngedig o foch daear/grwpiau o foch daear heintiedig ar ffermydd ag achosion parhaus o TB yn cael eu difa. Bydd rôl brechu'n cael ei ystyried pan fydd y brechlyn ar gael eto.

**57. A fyddai modd cynnig camerâu wedi'u gosod dros dro i weld a yw moch daear yn mynd i mewn i unedau cadw gwartheg?**

Bydd camera goruchwylio'n cael ei gynnig i fuchesi sydd ag achosion hirdymor o TB pan gredir bod moch daear yn cyfrannu at barhad y clefyd.

**58. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud er mwyn profi bod moch daear yn cyfrannu at y broblem?**

Gallwn ddangos bod moch daear wedi'u heintio ac yn rhannu'r un math o M.bovis â gwartheg ac felly mae'n debygol bod y clefyd yn cael ei drosglwyddo rhwng rhywogaethau. Rydym wrthi'n gweithio gyda milfeddygon / ecolegwyr moch daear a grwpiau bywyd gwyllt i ddatblygu cyfres o feini prawf y byddai angen eu bodloni i ddangos bod moch daear yn cyfrannu at achosion hirdymor o TB mewn buchesi.

**59. Sut bydd brechu moch daear yn cael ei annog yn yr ardaloedd canolradd?**

Bydd rôl brechu'n cael ei ystyried pan fydd y brechlyn ar gael eto.

**60. A fydd yr Arolwg o Foch Daear Marw yn parhau fel rhan o'r dull rhanbarthol?**

Rydym wrthi'n ystyried opsiwn ar gyfer parhau i oruchwylio'r clefyd mewn moch daear er efallai y bydd hyn wedi'i gyfyngu i ddull sydd wedi'i dargedu yn canolbwyntio ar achosion cronig yn yr ardaloedd risg uchel**.**

**61. A oes yna gysylltiad rhwng moch daear wedi'u heintio a ganfuwyd ac achosion o fuchesi wedi'u heintio â TB yng Nghymru?**

Oes, dangosodd dadansoddiad o'r mathau molecwlaidd o *M. bovis* mewn moch daear o Arolwg o Foch Daear Marw 2005/06 eu bod yn gyffredin â'r achosion o *M. bovis* mewn gwartheg yn yr ardal. Daeth adroddiad yr arolwg i'r casgliad bod gan twbercwlosis mewn moch daear yng Nghymru gysylltiad agos â'r clefyd mewn gwartheg, sy'n awgrymu bod yr haint yn trosglwyddo rhwng y ddwy rywogaeth.

**62. Sut gall unrhyw un warantu y gellir gweinyddu brechlyn bob blwyddyn am gyfnod o 9 mlynedd (i sicrhau bod 4 cenhedlaeth olynol yn lân) ar boblogaeth o anifail gwyllt?**

Bydd rôl brechu'n cael ei hystyried pan fydd y brechlyn ar gael eto.

**63. Am faint o amser mae TB buchol yn heintio brochfa?**

Dangosodd gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Young, Gormley a Wellington yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2004 fod Mycobacterium bovis yn gallu parhau yn amgylchedd y fferm y tu allan i'r anifeiliaid sydd wedi heintio. Mae'r amser goroesi yn dibynnu ar ffactorau hinsawdd. O ran goroesi mewn/neu o amgylch brochfa, dangosodd yr astudiaeth fod yna enynnau M.bovis yn y pridd o amgylch brochfeydd 21 mis ar ôl halogiad posibl.

**64. A yw caniatáu i fochyn daear sydd wedi'u heintio â TB i fyw yn achosi dioddef diangen?**

Nac ydy. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw TB yn achos mawr o farwolaethau mewn moch daear. Cael eu lladd wrth groesi'r ffordd yw'r risg fwyaf i foch daear yn eu llawn dwf farw'n gynnar. Gall moch daear sydd wedi'u heintio â TB fyw gyda'r haint am flynyddoedd lawer ac nid ydynt yn dangos unrhyw arwydd o'r haint yn gyffredinol. Nid oedd unrhyw foch daear oedd wedi'u dal yn yr ardal triniaeth ddwys yn dangos unrhyw arwydd o ddioddef o ganlyniad i twbercwlosis sydd yn y cyfnod datblygu.

**65. Sut mae'r gwaith o ddatblygu brechlyn trwy'r geg i foch daear yn mynd rhagddo?**

Efallai bod brechlyn trwy'r geg i foch daear yn ateb mwy ymarferol, ond mae'n dal i fod yn y cam ymchwilio.

**66. Ers pryd mae'r moch daear yn eich arolwg wedi marw? Ydy'r amser hwn yn effeithio ar y gallu i nodi achosion o TB? Am faint o amser mae TB yn byw mewn anifail marw? Ydy'r math o farwolaeth yn effeithio ar ganlyniad y prawf?**

Ers pryd mae'r moch daear yn eich arolwg wedi marw? Nid yw'n bosibl gwybod yn union ers pryd mae'r moch daear wedi marw. Bydd moch daear marw ond yn cael eu casglu pan fyddant mewn cyflwr addas. Cânt eu rhoi mewn oergell yn y ganolfan archwiliad post mortem a'u harchwilio cyn gynted ag sy'n bosibl ac o fewn 4 diwrnod i'w derbyn bob amser.

Ydy'r amser yn effeithio ar y gallu i nodi achosion o TB? Mae'r amser rhwng marw a'r archwiliad post mortem a'r amgylchedd a'r amodau storio, yn enwedig tymheredd, yn debygol o effeithio ar gyfran y moch daear sy'n cael canlyniad positif mewn prawf labordy. Bydd Mycobacterium bovis (TB) yn cael ei ddifa wrth i'r carcas bydru. Yn arolwg blaenorol Cymru gyfan o Foch Daear Marw yn 2005-06, roedd cyfran y carcasau a gafodd ganlyniad positif mewn prawf labordy ar ei isaf ar ddydd Llun, yn aml ar ôl cael eu cadw mewn oergell dros y penwythnos, ond nid oedd gwahaniaeth mawr yn ystadegau gwahanol ddiwrnodau post mortem o ran cyfran y carcasau oedd yn cael canlyniad positif mewn prawf labordy.

Am faint o amser mae TB yn goroesi mewn carcas? Mae goroesiad TB mewn carcas yn amrywio yn dibynnu ar yr amodau. Mae astudiaeth yn y DU wedi dangos bod TB yn gallu goroesi mewn carcas mochyn daear am gyfnod sy'n amrywio o ychydig ddyddiau i sawl wythnos, yn dibynnu ar yr amodau, gyda TB wedi diflannu ar ôl 4 wythnos. Cafwyd canfyddiadau tebyg mewn astudiaeth o *brushtail possums* yn Seland Newydd gyda TB yn goroesi mewn carcasau ar laswelltir rhwng 3 diwrnod yn yr haf i dros 27 diwrnod yn y gaeaf.

Ydy'r math o farwolaeth yn effeithio ar ganlyniad y prawf? Cyn belled ei bod hi'n bosibl nodi a chasglu ystod lawn o feinweoedd ar gyfer profi nid yw'r math o farwolaeth yn debygol o effeithio ar ganlyniad y prawf. Mae'n annhebygol y bydd hi'n bosibl nodi na chasglu ystod lawn o feinweoedd o garcasau mathredig felly mae'r rhain yn cael eu heithrio o'r astudiaeth.

**67. Sut bydd brechu'n digwydd yn yr Ardaloedd TB Canolradd ac o dan ba amgylchiadau, ble a phwy fyddai'n arwain hyn?**

Bydd rôl brechu'n cael ei ystyried pan fydd y brechlyn ar gael eto.

**68. Mae angen i ffermwyr gael gwybod am gasgliadau gwaith blaenorol yn yr Ardal Triniaeth Ddwys?**

Cyhoeddir adroddiad blynyddol sy'n cymharu'r tueddiadau yn nangosyddion TB yn yr Ardal Triniaeth Ddwys gydag ardaloedd eraill o Gymru yn y 5 mlynedd cyn sefydlu'r Ardal Triniaeth Ddwys a'r 6 blynedd ganlynol.

**69. Pam ei bod hi'n cymryd cymaint o amser i brofi moch daear am TB?**

Mae'r dulliau archwilio post mortem a ddefnyddir yn debyg i'r protocol safonol a ddefnyddir mewn sawl astudiaeth arall ond defnyddir amser meithrin estynedig o 12 wythnos i wella sensitifrwydd y cyfrwng meithrin.

**70. Sut bydd ymyriadau priodol i dorri llwybrau trosglwyddo'r clefyd rhwng gwartheg a bywyd gwyllt yn cael eu cynnal a phwy fydd yn gyfrifol?**

Gellir cynnal nifer o ymyriadau neu gyfuniadau ohonynt o gamau gweithredu i leihau neu atal cysylltiad rhwng y ddwy rywogaeth, i ddileu gwartheg a/neu foch daear heintiedig. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal yr ymyriadau hyn yn nwylo'r Llywodraeth neu'r ffermwr, yn dibynnu ar y camau gweithredu gofynnol.

**71. Rydych yn dweud bod 5,500 dos o frechlyn wedi'i roi, felly ydy hynny'n golygu bod 5,500 mochyn daear gwahanol wedi'u brechu dros 4 blynedd?**

Nac ydy, bydd y brechlyn wedi'i roi i gyfran o foch daear ar fwy nag un achlysur, ond ni ellir mesur hyn gan na chafodd y moch daear eu nodi'n unigol.

## <u>Ariannu'r Rhaglen</u>

**72. O ble ddaw'r arian? Arian ychwanegol neu drosglwyddo arian o ffynonellau/cynlluniau eraill?**

Ni fydd cyllideb y Rhaglen Dileu TB yn cynyddu sy'n golygu y bydd rhaid blaenoriaethu gwaith ar sail gwerth am arian a'i gyflwyno'n raddol fel mae cyllidebau ac adnoddau'n caniatáu hynny.

**73. A yw'r £150 miliwn a wariwyd ar iawndal yn cynnwys gwerth y farchnad sy'n cael ei wireddu gan Lywodraeth Cymru pan fydd anifeiliaid yn cael eu gwerthu?**

Ydy. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn gwerth achub, yn seiliedig ar werth unrhyw gig y gellir ei achub o anifeiliaid sy'n cael eu lladd oherwydd TB. Mae'r £150 miliwn sy'n cael ei wario ar iawndal yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd. Yn ogystal â chost iawndal TB, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru dalu am gludo a lladd anifeiliaid sy'n cael eu symud o fferm, a thalu ffioedd priswyr.

**74. Faint o arian mae Llywodraeth Cymru'n ei dderbyn wrth achub?**

Mae faint o arian mae Llywodraeth Cymru'n ei dderbyn yn dibynnu ar faint o anifeiliaid sy'n cael eu lladd a faint o gig sy'n bosibl i'w achub. Gweler y tabl isod sy'n nodi'r derbyniadau achub a dderbyniodd Llywodraeth Cymru yn y 5 mlynedd ariannol diwethaf.

| Blwyddyn | Achub |
|---|---|
| 2011/12 | -£1,539,000 |
| 2012/13 | -£2,020,000 |
| 2013/14 | -£1,462,000 |
| 2014/15 | -£2,521,000 |
| 2015/16 | -£2,846,000 |

**75. Pwy fydd yn gyfrifol am dalu am brofion ar ôl symud?**

Fel y prawf cyn symud byddai'r prawf ar ôl symud yn cael ei dalu'n breifat.

**76. Beth yw cost brechu moch daear?**

Mae'r gwariant perthnasol wedi'i gynnwys yn y ddolen isod.

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/intensive-action-area/badger-vaccination-iaa

**77. Beth yw costau gweinyddol y rhaglen hon?**

Mae'r costau gweinyddol wedi'u hariannu o wariant cyflawni'r rhaglen sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau a chyflawni. Nid yw'n bosibl felly gwahaniaethu rhwng gweinyddu a chostau gweinyddu.

**78. Beth oedd cost y rhaglen brechu moch daear a faint o welliannau a welwyd yn yr ardaloedd?**

Mae'r gwariant a'r manteision perthnasol wedi'u cynnwys yn y ddolen isod.
http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/intensive-action-area/badger-vaccination-iaa

## Prynu Gwybodus

**79. Ydy marchnad Caerfyrddin yn dangos hanes clefyd mewn buchesi?**

Nid oedd marchnad Caerfyrddin wedi gwneud cais i dderbyn cyllid grant i ddiweddaru ei chyfleusterau er mwyn gallu arddangos gwybodaeth am TB. Byddem yn croesawu cais gan Gaerfyrddin pan fydd y ffenestr grant prynu gwybodus yn ailagor.

**80. Masnachu ar sail risg – onid oes gan ffermwr hawl i gyfrinachedd cleient o dan ddeddfau diogelu data?**

Bydd unrhyw effeithiau diogelu data posibl yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud masnachu ar sail risg yn orfodol.

**81. Sut oedd y grant ar gyfer marchnadoedd yn gweithio?**

Sefydlwyd y grant i helpu marchnadoedd da byw i uwchraddio eu cyfleusterau er mwyn gallu arddangos gwybodaeth am TB yn amlwg. Derbyniodd deg cais llwyddiannus gyllid o hyd at 50% o gost (hyd at uchafswm o £2,500) cyfarpar, fel byrddau/sgrinio arddangos, ac unrhyw feddalwedd swyddfa gefn newydd neu ddiweddariad i feddalwedd. Fel rhan o amodau’r grant mae gofyn i farchnadoedd ofyn am y wybodaeth ganlynol a’i harddangos wedyn:

- dyddiad prawf cyn-symud diwethaf yr anifail
- dyddiad prawf buches rheolaidd diwethaf y gwerthwr
- y dyddiad y cafodd y fuches statws heb TB swyddogol.

## Ystadegau TB

**82. Os yw niferoedd gwartheg wedi gostwng, oni fyddech chi’n disgwyl i nifer yr achosion o TB fod wedi gostwng yn gymesur?**

Mae’r gostyngiad mewn achosion newydd yn llawer mwy na’r gostyngiad mewn buchesi a gwartheg, yn y byrdymor a’r hirdymor. Nid yw’n wir ein bod ni’n gweld llai o achosion dim ond oherwydd bod llai o fuchesi. Er enghraifft, yn y 12 mis i fis Tachwedd 2016 cafwyd gostyngiad o 0.3% mewn buchesi a gostyngiad o 19% mewn achosion.

**83. A yw Ffigurau 1 a 2 yn cynnwys gwartheg wedi’u heintio yn unig neu a ydynt yn cynnwys adweithyddion amhendant a gwartheg sy’n profi’n bositif ond heb eu heintio?**

Mae’r siartiau’n cynnwys pob achos, gyda a heb gadarnhad post mortem o’r clefyd, a phob anifail a laddwyd er mwyn rheoli TB, h.y. yn cynnwys Adweithyddion Amhendant. Mae gan y profion a ddefnyddiwyd i nodi anifeiliaid heintiedig benodoldeb uchel, sy’n golygu mai dim ond lleiafrif bach iawn o’r anifeiliaid sy’n profi’n bositif sydd heb eu heintio mewn gwirionedd.

**84. Pam mae sefyllfa'r clefyd mor wael yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a pham nad yw Prydain yn cydweithio fel un i ymdrin â'r clefyd?**

Mae achosion TB a mynychder mewn buchesi yn amrywio'n fawr ledled y DU, rhwng ac o fewn y gwledydd. Mae lefelau TB wedi arfer bod yn isel iawn yn yr Alban ac mewn rhannau mawr o ogledd a dwyrain Lloegr. Mae yna amrywiaeth sylweddol mewn lefelau TB ledled Cymru hefyd, sy'n adlewyrchu gwahaniaethau mewn daearyddiaeth, arferion ffermio a maint buchesi yn rhannol.

Y ffordd orau o fesur achosion yw drwy fesur nifer yr achosion newydd fesul 100 o flynyddoedd buches mewn risg (gan nad yw'n cael ei effeithio gan wahaniaethau mewn amlder profi y gwahanol ranbarthau neu newidiadau mewn profi dros amser). Ar y sail hon, mae achosion o TB yng Nghymru 32% yn is nag yn Lloegr (6.9 a 10.1 o achosion fesul 100 mlynedd mewn risg yn y drefn honno). Mae mynychder mewn buchesi - buchesi sydd wedi'u cyfyngu gan y clefyd fel cyfran o'r holl fuchesi - 11% yn is yng Nghymru nag yn Lloegr (4.9% a 5.5% yn y drefn honno). Mae hyn yn dilyn gostyngiadau hirdymor yn lefelau'r clefyd yng Nghymru. (Ystadegau Cenedlaethol Defra i fis Medi 2016 <https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577265/bovinetb-statsnotice-quarterly-14deci16.pdf>, y cyfnod diweddaraf y ceir data ar ei gyfer).

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Defra, yr Alban a Gogledd Iwerddon i rannu gwybodaeth ac arferion gorau. Er bod rhai gwahaniaethau mewn polisi TB ledled y DU, mae'r nodweddion cyffredin yn llawer mwy sylweddol – diogelu ardaloedd achosion isel, targedu ardaloedd achosion uchel i leihau lefelau'r clefyd ac atal lledaeniad pan fo clefyd endemig yn codi.

**85. Efallai bod nifer yr achosion newydd wedi gostwng ond beth am nifer y daliadau o dan gyfyngiadau?**

Gostyngodd mynychder mewn buchesi – cyfran y buchesi o dan gyfyngiadau oherwydd achosion TB – 10% yn y 12 mis diwethaf, o 5.4% ym mis Tachwedd 2015 i 4.8% ym mis Tachwedd 2016.

**86. Pa gyfran o'r holl wartheg a laddwyd oedd â TB mewn gwirionedd ac ym mha ardaloedd?**

Nid yw'n bosibl gwybod faint o'r anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB oedd wedi'u heintio mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae gan y prawf croen safonol benodoldeb o 99.98% - h.y. mae'n cynhyrchu 1 adweithydd positif anghywir am bob 5,000 o anifeiliaid heb eu heintio a brofwyd - sy'n golygu, yn ymarferol, y gall anifeiliaid sy'n cael adwaith positif i'r prawf croen gael eu hystyried fel rhai sy'n debygol iawn o fod wedi'u heintio. Mae gan y prawf gama interfferon benodoldeb is, tua 96.5%, sy'n golygu bod mwy o ganlyniadau positif anghywir yn cael eu nodi. Defnyddir y prawf gama yn

llawer llai aml na'r prawf croen a dim ond mewn buchesi sydd ag achosion agored o TB.

**87. Ydy'r ystadegau sy'n mynd yn ôl i 2008-9 yn berthnasol? Pam na chyhoeddwyd fframwaith strategol ar gyfer dileu TB tan 2012?**

Dechreuodd ein Rhaglen Dileu TB yn 2008 ac felly mae'n fan dechrau priodol i edrych ar dueddiadau'r clefyd. Er ein bod ni'n monitro amrywiaeth o ddangosyddion TB bob mis a bob chwarter, gallant fod yn anwadal dros gyfnodau byr felly mae'n bwysig ystyried newidiadau byrdymor yng nghyd-destun tueddiadau hirdymor.

Roedd yna fesurau ar waith i ymdrin â TB mewn gwartheg ym Mhrydain mor bell yn ôl â'r 1930au. Mae mesurau wedi bod ar waith yn benodol ers 2008 pan sefydlwyd strwythur Rhaglen Dileu TB ffurfiol yng Nghymru, ac maent wedi eu cryfhau ac ehangu ers hynny. Ar ôl adolygu'r rhaglen a newid Llywodraeth cyhoeddwyd fframwaith strategol ar gyfer dileu TB a oedd yn atgyfnerthu'r mesurau parhaus ac yn nodi amcanion hirdymor ar gyfer 4 blynedd y fframwaith.

## Iawndal TB

**88. A fydd ffermwyr yn cael iawndal am effaith ariannol y newidiadau hyn ar eu busnes?**

Telir iawndal yn unig am anifeiliaid sy'n cael eu lladd oherwydd TB.

**89. 'Anogir perchnogion anifeiliaid gwerth uchel i edrych am yswiriant ar gyfer unrhyw anifail sy'n werth mwy na £5,000' – ydych chi wedi ystyried y posibilrwydd hwn? Nid yw'n opsiwn.**

Er bod hon yn farchnad anaeddfed i ddarparwyr, rydym wedi cael ar ddeall bod rhywfaint o yswiriant ar gael ar gyfer unrhyw anifail sy'n werth mwy na £5,000. Dylai perchnogion gwartheg o werth uchel gysylltu â chwmnïau yswiriant i drafod yswiriant posibl.

## Brechu gwartheg

**90. Pryd fydd brechlyn ar gael i wartheg?**

Er mwyn defnyddio unrhyw frechlyn gwartheg mae'n rhaid i ni allu dangos y gwahaniaeth rhwng gwartheg sydd wedi'u brechu a'r rhai sydd wedi'u heintio. Rydym wedi bod yn gweithio ar brawf ar gyfer hyn (prawf DIVA) ers nifer o flynyddoedd, a nawr yn canolbwyntio ar asesu penodoldeb y prawf hwn i weld pa mor aml mae'n cynhyrchu canlyniadau positif anghywir. Bydd rhagor o waith ar ddatblygu brechlyn gwartheg yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiad hwn. Asesiad optimistaidd iawn fyddai dweud y gallai'r brechlyn fod ar gael erbyn 2023.

## Slyri

**91. A oes gweithdrefnau'n cael eu cynnal a'u harchwilio i ddileu'r risg a achosir gan slyri?**

Cynigir cyngor ar arferion gorau storio a lledaenu slyri i geidwaid gwartheg ar ddaliadau cyfyngedig ac mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad i geidwad yn gofyn iddo beidio symud tail, slyri neu wastraff anifail arall o'r safle ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan archwilydd. Ni chynhelir archwiliadau rheolaidd.

## Cymorth TB

**92. Beth yw Cymorth TB?**

Nod *Cymorth TB* yw darparu cymorth a chyngor i ffermwyr sydd â gwartheg sydd â TB, er mwyn:

- lleihau effaith y clefyd ar eu fferm
- atal y clefyd rhag lledaenu

Y rhaglen filfeddygol – mae milfeddygon preifat yn gwneud gwaith hanfodol i sicrhau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Drwy *Cymorth TB* rydym yn ceisio datblygu rôl milfeddygon preifat yn y gwaith o reoli TB. Mae'r rhaglen filfeddygol yn galluogi ffermwyr a cheidwaid buchesi sydd wedi'u heffeithio â TB i gael ymweliad arbenigol gan filfeddyg preifat sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig.

Caiff y rhaglen ei rheoli gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'i darparu gan filfeddygon preifat sydd wedi'u hisgontractio i ddau Bartner Cyflawni Milfeddygol Cymru. Mae ffermwyr yn cael cynnig ymuno â'r rhaglen drwy daleb a fydd yn cael ei darparu gan yr Asiantaeth.

Rhaglenni *Cymorth TB* eraill – mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglenni *Cymorth TB* eraill sy'n darparu cymorth personol a lles ychwanegol i geidwaid gwartheg, gan gontractio gyda'r Rhwydwaith Cymuned Ffermio a busnesau ffermio yn ystod achosion o TB.

## Adweithyddion Amhendant

**93. Os yw anifail yn cael canlyniad Adweithydd Amhendant ar y daliad cartref, ond wedi'i gyfyngu i'r fuches am oes, a fyddai'n bosibl ei symud i ddaliad haf neu dir arall i ffwrdd o'r daliad sy'n eiddo i ni?**

Byddai.

**94. Os yw anifeiliaid yn adweithyddion amhendant onid ydyn nhw'n risg i anifeiliaid eraill ar y fferm ac oni ddylid eu lladd?**

Mae papurau o Iwerddon wedi nodi bod Adweithyddion Amhendant tro cyntaf dros dro mewn buchesi OTF yn debygol o fod yn fwy o risg nag anifeiliaid sydd wedi profi'n glir. Fodd bynnag, mae Adweithyddion Amhendant mewn buchesi mewn ardaloedd risg uchel, neu mewn achosion parhaus, yn fwy tebygol o fod yn adweithyddion wedyn nag Adweithyddion Amhendant mewn ardaloedd TB risg isel. Nod y polisi yw lledaenu'r risg ariannol rhwng ceidwad yr anifeiliaid a'r Llywodraeth mewn ardaloedd TB isel a chanolradd ac yn yr ardaloedd hynny mae'r ffermwr yn cael ei annog i ladd yr anifeiliaid hyn yn breifat ac yn gynnar i leihau'r risg i'w buches. Mae'r polisi'n atal gwerthu'r anifail ymlaen i fuchesi eraill a chynyddu'r risg o ledaenu'r clefyd yn ehangach.

**95. Beth fydd yn digwydd i  Adweithyddion Amhendant sy'n gorfod aros ar y daliad pan fydd y ffermwr yn dymuno rhoi'r gorau i ffermio?**

Yr unig opsiwn fydd lladd yr anifeiliaid.

**96. Mae angen eglurhad pellach ar sut mae Adweithyddion Amhendant yn cael eu dehongli'n safonol neu ddifrifol gan fod yna bwynt croesi ar y siart ddehongli lle gall anifail fod yn Adweithydd Amhendant wrth ddehongli'n safonol neu ddifrifol?**

Byddai Adweithydd Amhendant gyda dehongliad difrifol yn cael ail brawf ac anifail gyda dehongliad safonol yn cael ei ladd.

**97. A fydd statws cyfyngiadau buchesi sydd ond wedi datgelu Adweithyddion Amhendant mewn prawf yn cael ei ddiddymu'n gyfan gwbl neu ei atal dros dro?**

Bydd statws heb TB buchesi sydd ond yn datgelu Adweithyddion Amhendant yn cael ei atal dros dro neu os ydynt yn cael eu hynysu'n briodol, dim ond yr Adweithyddion Amhendant hynny fydd yn cael eu hatal dros dro.

**98. Sut bydd cyfyngu ar Adweithyddion Amhendant yn gweithio'n ymarferol ac yn cael ei orfodi ac a fydd ffermwyr yn gallu difa'r anifeiliaid hyn yn wirfoddol o'u buchesi?**

Bydd angen datblygu proses gyda Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) i nodi pryd y symudwyd yr anifeiliaid hyn i unrhyw leoliad nad yw'n lleoliad lladd ac ar gyfer stampio eu pasborts i gadarnhau mai dim ond eu symud i'w lladd a ganiateir. Ar ôl canfod achos o symud anghyfreithlon:

- bydd awdurdodau lleol yn gorfodi drwy'r dulliau arferol;
- bydd angen cyflwyno hysbysiad newydd ar yr anifail a symudwyd, i gyfyngu ar unrhyw symud pellach o'i leoliad newydd.

Byddant, bydd ffermwyr yn cael eu hannog i ladd yr anifeiliaid hyn yn breifat.

**99. Sut mae disgwyl i ffermwyr gyfyngu ar Adweithyddion Amhendant i'r fuches am oes? Cael gwared ar eu pasbort? A fyddai posibl cael iawndal am yr anifeiliaid hyn petaent yn profi'n bositif mewn prawf diweddarach?**

Byddai stampio'r pasbort yn darparu'r wybodaeth berthnasol am oes yr anifail h.y.. *"gellir ond eu symud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'w lladd drwy farchnad ladd".*

**100. Mae yna lawer o achosion o wartheg sy'n Adweithyddion Amhendant nad ydynt yn cael adwaith croen wrth gael eu hailbrofi, sut mae egluro hynny?**

Mae'r Prawf Twbercwlin Serfigol Sengl Tan y Croen? (SICCT) yn chwistrellu twbercwlin buchol a thwbercwlin adar yr un pryd ochr yn ochr i groen y gwddf. Mae dehongliad y prawf SICCT yn seiliedig ar arsylwi bod gwartheg sydd wedi'u heintio â M.bovis yn dueddol o ddangos mwy o ymateb i dwbercwlin buchol nag i dwbercwlin adar, tra bod heintiau gyda mycobacteria eraill yn dueddol o fod i'r gwrthwyneb.

Ar sail ein dealltwriaeth o'r SICTT, a phrofion diagnostig yn fwy cyffredinol, gallai adweithydd amhendant dros dro, h.y. un sy'n profi'n glir yn y prawf croen nesaf ei fod naill ai'n:

- Anifail heb ei heintio sy'n cael canlyniad amheus, yn aml yn dilyn dod i gysylltiad â mycobacteria amgylcheddol neu haint o fycobacteria arall e.e. M. avium subsp. Paratuberculosis; neu
- Anifail sydd wedi'i heintio â M. bovis sy'n cael canlyniad amheus yn hytrach na phositif, yn sgil ystod eang o ffactorau sy'n gysylltiedig â'r anifail, fel cyd-haint neu gysylltiad â mycobacteria arall, y twbercwlin a/neu'r dull gweinyddu.

## Bioddiogelwch

**101. Sut fyddai bioddiogelwch yn gweithio'n ymarferol pan nad yw caeau yn wirioneddol fioddiogel?**

Mae bioddiogelwch yn ymwneud â lleihau'r cyfleoedd sydd gan glefyd i effeithio ar fuches. Mesurau rhagofalus, synnwyr cyffredin yw'r rhain y gall ffermwyr gwartheg eu gweithredu i leihau'r risg o TB yn lledaenu i'w buches. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod moch daear yn ymweld ag adeiladau ffermydd yn aml ac yn dod i gysylltiad agos â gwartheg dan do. Mae yna nifer o fesurau rhagofalus effeithiol y gellir eu gweithredu i atal moch daear rhag cael mynediad at unedau cadw gwartheg a storfeydd bwydo. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw TB yn cael ei drosglwyddo drwy gysylltiad uniongyrchol gyda moch daear sy'n pori ac felly dylai mesurau ganolbwyntio ar frochfeydd a charthfeydd yn ogystal ag atal moch daear rhag cael mynediad i gafnau bwydo a dŵr.

**102. Ydych chi am weld diwydiant da byw'r DU yn symud tuag at ddull ffermio ffatri dwys i sicrhau bioddiogelwch?**

Mae bioddiogelwch yn ymwneud â lleihau'r cyfleoedd sydd gan glefyd i effeithio ar fuches. Mesurau rhagofalus, synnwyr cyffredin yw'r rhain y gall ffermwyr gwartheg eu gweithredu i leihau'r risg o TB yn lledaenu i'w buches. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod moch daear yn ymweld ag adeiladau ffermydd yn aml ac yn dod i gysylltiad agos â gwartheg dan do. Mae yna nifer o fesurau rhagofalus effeithiol y gellir eu gweithredu i atal moch daear rhag cael mynediad at unedau cadw gwartheg a storfeydd bwydo. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw TB yn cael ei drosglwyddo drwy gysylltiad uniongyrchol gyda moch daear sy'n pori ac felly dylai mesurau ganolbwyntio ar frochfeydd a charthfeydd yn ogystal ag atal moch daear rhag cael mynediad i gafnau bwydo a dŵr.

**103. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng Hysbysiad Gwella Bioddiogelwch/Hysbysiad Gwella Milfeddygol/Hysbysiad Gofynion Milfeddygol?**

Hysbysiad Gofynion Milfeddygol (Hysbysiad Gwella Milfeddygol cyn hyn):
Mae Hysbysiad Gofynion Milfeddygol yn gofyn i ffermwr gymryd camau gweithredu penodol i atal lledaeniad TB.

Hysbysiad Gwella Bioddiogelwch:
Bydd Hysbysiad Gwella Bioddiogelwch yn datgan ble dylid gwella bioddiogelwch er mwyn atal lledaeniad TB ond bydd yn galluogi'r ffermwr i benderfynu sut i gyflawni'r amcan(ion) a nodwyd yn yr hysbysiad. Bydd canllawiau cynhwysfawr ar safonau bioddiogelwch yn cael eu darparu i'r ffermwr gyda'r Hysbysiad Gwella Bioddiogelwch yn eu hymweliad Ffurflen Adrodd Clefyd cyntaf, ac os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, byddant yn cael eu hannog i gael ymweliad Cymorth TB. Bydd hyn yn helpu'r ffermwr i nodi unrhyw wendidau bioddiogelwch ar y fferm yn gynnar ac yn ei alluogi i wybod pa lefel o fioddiogelwch sy'n ofynnol.

## Arall

**104. A oes gan wartheg imiwnedd naturiol i TB?**

Dengys astudiaethau ym Mhrydain ac Iwerddon fod genynnau buchod sugno Holstein-Friesian Prydain ac Iwerddon yn amrywio'n sylweddol o ran eu tuedd i gael yr haint M. bovis. O ganlyniad, gall rhai gwartheg fod yn fwy neu'n llai gwydn i wrthsefyll haint nag eraill.

Mae mantais TB yn fynegai genetig a gyhoeddwyd gan adran laeth y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ym mis Ionawr 2016 i helpu rhai ffermwyr godro i wneud penderfyniadau gwybodus i fridio gwartheg sy'n gallu gwrthsefyll twbercwlosis buchol (bTB) yn well.

Mae'r mynegai'n dilyn ymchwil i eneteg bTB, a gynhaliwyd ar y cyd gan Brifysgol Caeredin, Sefydliad Roslin a Choleg Gwledig yr Alban (SRUC), ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru a Defra. Ar ôl rhagor o waith efallai y bydd hi'n bosibl ehangu'r mynegai i gynnwys bridiau godro ac eidion eraill.

Mae bridio gwartheg sy'n llai tueddol o gael bTB yn ddull hirdymor o reoli'r clefyd ac yn rhan yn unig o gyfres o fesurau sydd eu hangen i ddileu TB buchol. Dylai ceidwaid gwartheg barhau i gymryd mesurau i **ddiogelu gwartheg rhag TB**, waeth beth fo mynegai genetig y teirw maent yn eu defnyddio ar gyfer eu buchesi.

**105. Pam mae cig o wartheg TB yn mynd yn ôl i'r gadwyn fwyd ddynol os yw'n risg i iechyd pobl?**

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rheoli cig sy'n anaddas i'w fwyta gan bobl rhag dod i mewn i'r gadwyn fwyd. Yn 2013, cyhoeddodd Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop adolygiad o'r risgiau o ddal TB trwy fwyta cig a chynhyrchion cig gan ddod i'r casgliad bod y risg o unrhyw un yn dal TB buchol drwy fwyta cig yn 'ddibwys'. Pan fo pobl yn dal TB buchol maent yn gwneud hynny fel rheol drwy yfed llaeth heb ei basteureiddio neu drwy ddod i gysylltiad hir ag anifail wedi'i heintio. Cefnogir y farn hon gan y Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF), y panel annibynnol o arbenigwyr sy'n cynghori'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn y maes hwn, yn dilyn ei asesiad risg ei hun yn 2010.

**106. Pam na chafodd ffermwyr wybodaeth lawn am yr ymgynghoriad hwn?**

Byddai wedi costio tua £7,000 i ysgrifennu at bob ffermwr yng Nghymru i'w hysbysu am yr ymgynghoriad. Dosbarthwyd yr ymgynghoriad i randdeiliaid allweddol yn cynnwys yr undebau ffermio a'i gyhoeddi drwy ddatganiadau i'r wasg.

## Camsyniadau:

**1. Rhwystredig nad oes fawr o gynnydd wedi'i wneud er bod TB wedi cael ei dderbyn fel problem fawr gan y diwydiant a'r cyhoedd ers amser.**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers sefydlu'r rhaglen dileu TB yn 2008. Yn 2008, roedd 1,198 o achosion newydd yng Nghymru ac yn y 12 mis i fis Tachwedd 2016 roedd 689 o achosion newydd, gostyngiad o 42%. Mae'r duedd mewn anifeiliaid a ledir hefyd wedi gostwng o 11,400 yn 2008 i 9,954 yn y flwyddyn ddiweddaraf. A hyn er gwaethaf cynnydd diweddar sydd i'w briodoli i newid mewn profion yn bennaf.

**2. Ar hyn o bryd mae ceirw'n cael eu difa ledled Cymru ond nid ydynt yn cael eu profi.**

Mae ceirw'n gallu dal yr haint Mycobacterium bovis (M. bovis) ond mae'r risg o'r haint ac o drosglwyddo'r haint i wartheg, bywyd gwyllt a phobl yn isel. Ers hydref 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hyrwyddo goruchwyliaeth ar gyfer TB mewn ceirw gwyllt sy'n cael eu difa gan lech-helwyr. Darparwyd hyfforddiant ar dechnegau samplu a phecynnau samplu drwy Fenter Ceirw Cymru. Hyd yn hyn, derbyniwyd 994 sampl sy'n addas i'w profi gyda 17 yn profi'n bositif am M. bovis, 972 yn profi'n negatif gyda 5 canlyniad heb ddod eto.

**3. Y llynedd, gwelodd Lloegr ostyngiad yn nifer y gwartheg a laddwyd oherwydd TB buchol, ond cafwyd cynnydd yng Nghymru.**

Yn 2015 cafwyd cynnydd o 6% yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB yn Lloegr, ac yn y 12 mis diwethaf (i Hydref 2016) cafwyd cynnydd o 8%. Yng Nghymru, roedd y cynnydd yn 27% yn 2015 ac yn 33% yn y flwyddyn i Hydref 2016, ond mae hyn i'w briodoli'n bennaf i ddefnydd mwy strategol o'r prawf gama, sydd â sensitifrwydd uchel ac yn datgelu mwy o achosion na'r prawf croen safonol. Defnyddir profion gama i helpu i glirio haint mewn achosion ailadroddus a pharhaus, ac i atal y clefyd rhag sefydlu mewn ardaloedd achosion isel.

**4. Mae yna ganfyddiad y gallai dileu'r gofyniad i gynnal prawf cyn symud yn yr ardal TB isel atal prynwyr yn Lloegr rhag dod i werthiannau gan eu bod yn gweld mwy o risg mewn prynu gwartheg heb eu profi er eu bod yn dod o ardal TB isel.**

Y sail resymegol yn yr ardal TB isel yw y bydd prynwyr yn deall bod y buchesi hyn yn achosi llai o risg o haint ac mae'r mesurau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i atal yr haint Dylai hyn weithio yn yr un ffordd ag sy'n digwydd yn yr Alban ac ardal TB isel Lloegr.

**5. Rydych chi'n cyfaddef mai'r mochyn daear sy'n gyfrifol am TB.**

Gall TB effeithio ar bob mamal, yn cynnwys moch daear. Cafwyd tystiolaeth o gysylltiad rhwng TB mewn moch daear a gwartheg ac mae arbrofion wedi profi bod moch daear yn gallu trosglwyddo TB buchol i wartheg. Derbynnir y

gall moch daear achosi'r clefyd mewn rhai buchesi, ond y risg trosglwyddo mwyaf yw o un fuwch i'r llall.

**6. Mae torri iawndal a rhoi cap ar daliadau yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru'n teimlo bod ffermwyr wedi'u gordalu ond bod y Llywodraeth bob amser yn penodi priswyr proffesiynol.**

Er gwaethaf y mesurau a gyflwynwyd gennym mae ein prisiadau ar gyfer rhai categorïau o wartheg yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r gwerth cyfartalog ar y farchnad. Er enghraifft, mae ein taliadau iawndal cyfartalog 60% yn uwch o'u cymharu â thaliadau ar gyfer anifeiliaid cymharol yn Lloegr. Mae'n bwysig ein bod yn ymdrin ag unrhyw orbrisio sy'n digwydd gan ei fod yn cynyddu'r gost i'r trethdalwr ac yn cynnig fawr o gymhelliant i rai ffermwyr atal TB. Er mwyn gallu ymdrin â gorbrisiadau'n well byddwn yn adolygu ein system iawndal ac yn edrych ar y systemau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill. Yn y cyfamser, byddwn yn lleihau'r cap i £5,000 i sicrhau bod y system iawndal yn gynaliadwy'n ariannol.

**7. Mor bell yn ôl â'r 1970au nododd MAFF fod y crynhoad mwyaf o TB buchol i'w gael mewn ceirw, yna cathod fferm, yna moch daear, gwencïod, llygod y coed a draenogod.**

Mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn 2007 (Delahay et al) i edrych ar fynychder mewn mamaliaid gwyllt eraill ac asesu'r risg cymharol i wartheg, archwiliwyd carcasau 4,715 o famaliaid a gasglwyd ledled de-orllewin Lloegr. Er bod yr haint wedi'i gadarnhau mewn nifer o rywogaethau roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gymharol isel eu risg. Roedd gwerthoedd uwch ac ansicrwydd yn gysylltiedig â cheirw ac yn awgrymu y dylid ystyried ceirw fod ffynonellau haint posibl, lleol i wartheg.

Ers hydref 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hyrwyddo goruchwyliaeth ar gyfer TB mewn ceirw gwyllt sy'n cael eu difa gan lech-helwyr. Darparwyd hyfforddiant ar dechnegau samplu a phecynnau samplu drwy Fenter Ceirw Cymru. Hyd yn hyn, derbyniwyd 994 sampl sy'n addas i'w profi gyda 17 y profi'n bositif am M. bovis, 972 yn profi'n negatif gyda 5 canlyniad heb ddod eto.


**8. Gweithredoedd moch daear yn dinistrio draenogod ac adar sy'n nythu ar y ddaear!!!!!!**

Mae astudiaethau'n awgrymu mai ymddygiad ysglyfaethus gan foch daear yw un o brif achosion marwolaethau draenogod a bod cysylltiad negyddol rhwng llawer o foch daear a digonedd o ddraenogod, ond nad ydynt yn cael eu diddymu'n llwyr.

**9. Nid oes sail wyddonol dros y ffiniau rhanbarthol!!!!!**

Mae'r ardaloedd yn gyfuniad o unedau gofodol a grëwyd gan ddefnyddio dull tebyg i'r un a ddefnyddiwyd i greu unedau ystadegol ar gyfer Cyfrifiadau'r DU.

Mae’r unedau gofodol yn cynnwys plwyfi ac felly’n cyd-fynd â system Rhif y Daliad. Nid yw ffiniau awdurdodau lleol yn effeithio ar y dull hwn ac mae’n hyblyg i newid i gyd-fynd â sefyllfa’r clefyd yn lleol.




**10. Camsyniad cyffredin yw bod y prawf croen yn nodi anifeiliaid iach fel rhai wedi’u heintio yn anghywir gan nad yw’r archwiliad post mortem yn dod o hyd i friwiau.**

Mae gan y prawf benodoldeb uchel iawn (99.98%) sy'n golygu mai ychydig iawn o anifeiliaid mae'n eu nodi fel rhai positif yn anghywir. Mae'r ddau brawf yn canfod ymateb imiwnaidd i TB sy'n golygu y gallant nodi haint cyn i wartheg ddangos unrhyw arwyddion o salwch ac felly mae disgwyl y gallant ganfod anifeiliaid wedi'u heintio cyn i'r clefyd gyrraedd y cyfnod lle mae briwiau'n amlwg.

**11. Roedd llawer o ymatebwyr yn feirniadol o fesurau bioddiogelwch wrth bori gan ei bod hi'n anymarferol cadw gwartheg a moch daear ar wahân**

Nid yw mesurau bioddiogelwch yn ceisio cadw'r ddwy rywogaeth ar wahân ond yn hytrach cyfyngu ar y cyfleoedd i ledaenu'r clefyd.

**12. Roedd rhai ffermwyr a milfeddygon o dan yr argraff mai diben Cymorth TB oedd gweld a oedd moch daear yn bresennol ar ffermydd**

Diben ymweliad Cymorth TB yw cynghori ar yr holl ffynonellau haint posibl a'r camau ymarferol y gall y ffermwr eu cymryd i ddiogelu'r fuches.

**13. Roedd yna gamsyniad nad oedd dim yn cael ei wneud i ddysgu o ffermydd, yn enwedig mewn ardaloedd TB uchel, sydd erioed wedi cael TB.**

Mae hyn wedi'i wneud fel rhan o'r prosiect epidemioleg a chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori wrth gyfeirio at sut mae buchesi godro ac eidion yn dueddol o gael eu heffeithio'n wahanol.

**14. Dywedodd rhai ymatebwyr fod nifer y moch daear wedi cynyddu'n sylweddol sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn TB.**

Canfu arolwg o ddwyster moch daear (prif frochfeydd) mai ychydig o newid a fu yn yr amcangyfrif o grwpiau cymdeithasol moch daear yng Nghymru[1]. Mae' nifer y moch daear fesul grŵp cymdeithasol yn amrywio'n fawr felly nid yw'n bosibl amcangyfrif cyfanswm y moch daear.

**15. O ran dal moch daear ar gyfer profi/brechu, roedd rhai'n awgrymu y byddai moch daear yn dysgu sut i osgoi trapiau.**

Nid dyna oedd ein profiad yn yr Ardal Triniaeth Ddwys lle cafwyd cyfradd ail-ddal uchel.

1

16. **Roedd rhai'n pryderu am gael gwahanol fesurau rheoli a pholisïau yng Nghymru a Lloegr gan awgrymu bod angen cysondeb, ond mae yna wahaniaethau eisoes yn nulliau'r ddwy wlad.**

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Defra i sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu lle bo'n bosibl yn ogystal â'r dull mwyaf priodol ar gyfer dileu yng Nghymru.

17. **Nid yw marchnadoedd oren yn achosi risg i ledaenu TB.**

Mae symud anifail o fuches sydd â phroblem TB bob amser yn risg. Mae'r risg o ledaenu TB yn cynyddu'n sylweddol pan fydd anifeiliaid cyfyngedig yn cael eu casglu o ffermydd gwahanol. Dyna pam ein bod ni ond yn caniatáu gwartheg i symud o fuchesi cyfyngedig o dan amgylchiadau cyfyngedig fel yn syth i'w lladd neu i Uned Pesgi Gymeradwy.

18. **Dywed Cymdeithas Milfeddygon Prydain/Cymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain fod y ffactorau sy'n ysgogi'r clefyd yn y ddwy ardal canolradd yn wahanol.**

Mae'r clefyd ar lefel ganolig yn y ddwy ardal canolradd gyda thua 2% o fuchesi o dan gyfyngiadau. Yn y ddwy ardal mae'r ffactorau sy'n ysgogi'r clefyd yn gorgyffwrdd a'r dystiolaeth yn dangos mai symud gwartheg i'r ardaloedd o ardaloedd TB uwch cyfagos yw un o'r prif ffactorau ysgogi.

19. **Dylid datblygu taflen gyda lluniau mesurau bioddiogelwch y gellir eu defnyddio mewn ymweliadau Cymorth TB.**

Mae Cymorth TB yn darparu taflenni ac mae yna ganllawiau bioddiogelwch ar yr Hyb TB yn rhestru mesurau i'w gweithredu ar fferm, a thaflen 'Diogelu'ch gwartheg rhag clefydau' ar wefan Llywodraeth Cymru.

20. **Dylid sefydlu system lefel risg i alluogi prynwyr i ddewis rhwng anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu gan gynhyrchydd gofalus, da i'r rhai sy'n cael eu gwerthu gan gynhyrchydd sy'n gweithredu mesurau rheoli llai llym. Dylid cysylltu hyn â'r lleoliad daearyddol.**

Mae'r system eisoes yn bodoli – Cynllun Iechyd Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd.

21. **Mae cangen Gwent o Undeb Amaethwyr Cymru yn honni bod y ffigurau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad yn anghywir ac wedi'u ffugio h.y. achosion o TB.**

Mae'r ffigurau ar gael i'r cyhoedd ac yn cael eu cyhoeddi bob mis gan Defra.

22. **Mae llawer o bobl wedi dweud fod y gair 'risg' wedi'i ddefnyddio ar gyfer y rhanbarthau.**

Nid yw hyn yn wir, cânt eu galw'n ardaloedd TB.

**23. Mae Defra yn brechu moch daear fel cam cysylltiadau cyhoeddus i dawelu'r cyhoedd.**

Ni allwn roi sylwadau ar bolisïau Defra.

**24. Ni fyddai ffermwyr yn gallu gwerthu gwartheg heb y prawf cyn symud**

Y sail resymegol yn yr ardal TB isel yw y bydd prynwyr yn deall bod y buchesi hyn yn achosi llai o risg o haint ac mae'r mesurau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i atal yr haint. Dylai hyn weithio yn yr un ffordd ag sy'n digwydd yn yr Alban ac ardal TB isel Lloegr. Gall unrhyw ffermwr gynnal prawf cyn symud gwirfoddol.

**25. Mae'r polisi difa moch daear yn llwyddiannus iawn yn Lloegr.**

Mae Defra wedi cyhoeddi ail adroddiad ar achosion o twbercwlosis buchol mewn gwartheg yn ardaloedd Gwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw sydd wedi cael dwy flynedd o ddifa moch daear dan arweiniad y diwydiant.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/548714/tb-badger-control-second-year-analysis.pdf

Nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol sylweddol yng nghyfradd yr achosion yn yr ardaloedd ymyrraeth difa cyfun a'u hardaloedd cymharu cyfun. Fodd bynnag, nid yw hyn yn syndod gan yr amcangyfrifir y bydd hi'n cymryd o leiaf dair blynedd o ddechrau difa i weld gwahaniaethau ystadegol sylweddol mewn achosion o fuchesi OTFW ac y bydd hyn yn cynyddu i bedair blynedd os mai dim ond dwy ardal ymyrryd sydd wedi'u trwyddedu (Donnelly et al 2015).

**26. Bydd difa moch daear yn dileu TB mewn 3 blynedd ac yn costio llai na mesurau eraill.**

Dangosodd dadansoddiad o'r Hapdreialon Difa Moch Daear a gynhaliwyd rhwng 1998 a 2005 fod difa rhagweithiol yn cael effaith fuddiol gyffredinol ar yr achosion cadarnhaol o TB mewn gwartheg, ond nad oedd yn 'dileu' y clefyd. Daeth y Grŵp Gwyddonol Annibynnol a oruchwyliodd y treial i'r casgliad bod manteision cyffredinol difa rhagweithiol yn gymedrol a'u bod ond yn cael eu gwireddu ar ôl ymdrech gyd-drefnus, barhaus.

**27. Mae nifer y moch daear yng Nghymru wedi cynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf.**

Cynhaliwyd arolwg o frochfeydd ledled Cymru a Lloegr rhwng 2011 a 2013. Cymharwyd y canlyniadau ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd yn yr 1980au

a’r 1990au. Dangosodd y canlyniadau fod nifer y brochfeydd yng Nghymru wedi aros yn eithaf cyson o gymharu ag arolygon blaenorol.

**28. Nid oedd y rhaglen frechu moch daear yn sicrhau unrhyw fanteision.**

Nid oedd unrhyw fwriad i fesur yr effaith y byddai brechu moch daear ynddo’i hun yn ei chael ar achosion o TB mewn buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Yn hytrach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad sy’n mesur effaith y **gyfres gyfun o fesurau** a ddefnyddir yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Mae ffigurau hyd at fis Ebrill 2016 yn dangos bod gostyngiad wedi bod yn nifer yr achosion newydd o TB mewn buchesi o 85 yn 2008/09 i 37 yn ystod 2015/16. Gostyngodd cyfran y buchesi o dan gyfyngiadau o 28% i 19% dros yr un cyfnod.

**29. Bydd ardaloedd uchel a chanolradd ond yn gallu prynu gwartheg sydd wedi cael prawf cyn symud.**

Nid oes unrhyw effaith o ran ble allwch chi brynu gwartheg ohono.

**30. Mae angen taflen ddarllen syml neu siart llif i ddangos beth sy’n digwydd yn ystod achos o TB.**

Mae gwybodaeth am ymdrin â TB yn eich buches ar gael drwy glicio ar y ddolen isod
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/488945/AG-TBYHW-03.pdf

**31. Oedi sylweddol yng ngweithdrefn prawf gwaed gama**

Mae’n rhaid i’r samplau gyrraedd y labordy erbyn 9:00am ar y diwrnod ar ôl eu casglu ac mae’n rhaid trefnu’r samplu fel bod y samplau’n cyrraedd y labordy ar ddydd Llun, dydd Mawrth neu ddydd Mercher.

Dim ond hyn a hyn o waith mae labordy’n gallu ei wneud mewn diwrnod ac mae’n rhaid trefnu’r samplu ar sail beth sy’n bosibl ar ddiwrnod penodol, sy’n golygu bod rhaid i staff maes yr Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion gynllunio’r prawf gama’n ofalus ymlaen llaw, ac yn golygu y bydd trefnu llawer o samplau o fuches benodol yn cymryd mwy o amser nag ychydig o samplau.

Y targed ar gyfer cwblhau yw 60 diwrnod a’r nod yw sicrhau ei fod wedi’i gwblhau cyn, neu yn y prawf croen nesaf.

**32. Bydd angen prawf ar ôl symud ar gyfer symudiadau o fewn ardaloedd canolradd ac uwch**

Dim ond pan fydd yr anifail yn symud o ardal clefyd uwch sydd angen cynnal prawf ar ôl symud.

**33. Mae profion wedi'u cynnal ers blynyddoedd a sefyllfa'r clefyd yn gwaethygu.**

Gwnaed cynnydd sylweddol ers sefydlu'r rhaglen dileu TB yn 2008. Er enghraifft, mae'r duedd mewn achosion newydd wedi gostwng 42% ac yn parhau i ostwng. Mae cynnal profion sylweddol ledled Cymru a thargedu ardaloedd achosion uchel ar gyfer goruchwylio ychwanegol wedi bod yn allweddol yn hyn o beth.

**34. Nid yw yswiriant yn opsiwn i wartheg yng Nghymru.**

Er bod hon yn farchnad anaeddfed i ddarparwyr, rydym wedi cael ar ddeall bod rhywfaint o yswiriant ar gael ar gyfer unrhyw anifail sy'n werth mwy na £5,000. Dylai perchnogion gwartheg o werth uchel gysylltu â chwmnïau yswiriant i drafod yswiriant posibl.

**35. Roedd rhaglen yn Awstralia'n canolbwyntio ar ddileu bywyd gwyllt fel yn Seland Newydd.**

Roedd y rhaglen ddileu yn Awstralia yn dibynnu llawer ar brofi a lladd gyda chadw golwg am achosion o'r clefyd mewn lladd-dai ac olrhain i'r eiddo tarddu yn elfen hanfodol o'r rhaglen. Yn yr amgylchedd mwy anghyfeillgar yng ngogledd Awstralia datblygwyd strategaethau newydd i gael cymaint o gynulliadau â phosibl a dileu anifeiliaid 'mewn risg'. Nid oedd unrhyw fywyd gwyllt yn Awstralia'n cario'r clefyd M. bovis (ac eithrio'r byffalo, a gafodd ei gynnwys yn yr ymgyrch).

**36. Mae'r dull rhanbarthol yn dosbarthu rhai ffermwyr o ochr arall y ffin fel ffermwyr Cymru.**

Fel sy'n bodoli ar hyn o bryd, bydd Rhif y Daliad naill ai yng Nghymru neu Loegr a'r rheolau priodol yn berthnasol.

**37. Nid yw ffermwyr yn gwybod pa ffermydd cyfagos sydd â TB.**

Mae gwybodaeth am achosion o TB ar gael drwy glicio ar y ddolen isod www.ibtb.co.uk

**38. Mae'r gostyngiad mewn achosion TB yn ganlyniad uniongyrchol i lai o ffermydd.**

Mae'r gostyngiad mewn achosion newydd yn llawer mwy na'r gostyngiad mewn buchesi a gwartheg, yn y byrdymor a'r hirdymor. Nid yw'n wir ein bod ni'n gweld llai o achosion dim ond oherwydd bod llai o fuchesi. Er enghraifft,, yn y 12 mis i fis Tachwedd 2016 cafwyd gostyngiad o 0.4% mewn buchesi a gostyngiad o 21% mewn achosion.

**39. Bydd y dull rhanbarthol yn golygu na fydd ffermwyr mewn ardaloedd uchel yn gallu gwerthu i ardaloedd isel.**

Ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar anifeiliaid sy'n symud rhwng y gwahanol ardaloedd. Gall y ffermwyr mewn ardaloedd TB uchel, sydd heb gael y clefyd yn ddiweddar neu erioed, ddangos eu statws risg isel drwy gynllun iechyd Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg drwy rannu'r wybodaeth hon yn y man gwerthu.

**40. Yn Sir Drefaldwyn, roedd 75% o'r moch daear a ganfuwyd yn yr arolwg moch daear marw wedi'u heintio.**

Dangosodd ffigurau dros dro o'r arolwg diweddar fod 13% o'r moch daear a gyflwynwyd o ogledd Powys wedi profi'n bositif am M.bovis.

**41. Cafwyd gostyngiad o 50% mewn TB dros y 10 mlynedd diwethaf yn sgil difa yn Iwerddon.**

Mae'n rhaid priodoli unrhyw ostyngiad i'r ystod gyfan o fesurau a ddefnyddiwyd yn Iwerddon. Roedd difa moch daear wedi'i gyfyngu i 30% o'r tir amaethyddol.

**42. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu mai moch daear yw'r broblem ond nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud amdanynt.**

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai trosglwyddo o un fuwch i'r llall sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o achosion yn hytrach na moch daear. Mae gweithgarwch moch daear mewn achosion cronig yn destun ymchwiliad a gall hyn arwain at ddifa moch daear neu grwpiau ohonynt.

**43. Roedd yr arolwg moch daear marw yn canolbwyntio ar rai oedd wedi'u lladd ar y ffordd yn unig.**

Roedd pobl yn cael eu hannog i roi gwybod am unrhyw fochyn daear marw roeddynt wedi'i weld a dim ond y carcasau hynny roedden ni'n gallu eu casglu. Casglwyd rhai carcasau o dir fferm ond roedd y rhan fwyaf yn dod o ddamweiniau ffyrdd.